# CYNLLUN MARCIO TAG UG

**HAF 2023**

**UG**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT – UNED 1**
**2570N10-1**

© WJEC CBAC Ltd.

**RHAGARWEINIAD**

Cafodd y cynllun marcio hwn ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Cafodd ei gwblhau ar ôl trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr a oedd yn ymwneud â'r asesu. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl i'r papur gael ei sefyll fel y gellid cyfeirio at yr ystod lawn o atebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Nod y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn yr un ffordd gan yr holl arholwyr.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir hefyd y gall athrawon, heb y fantais o gymryd rhan yng nghynhadledd yr arholwyr, fod â safbwyntiau gwahanol ynghylch rhai materion ynglŷn â manylion neu ddehongliad.

Ni all CBAC fod yn rhan o unrhyw drafodaeth na gohebiaeth yn ymwneud â'r cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**TAG IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT – UNED 1**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2023**

## Canllawiau i arholwyr

### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi marciau am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael marc o sero. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn. Mae *cynnwys 'Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir dyfarnu marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau a gaiff eu marcio yn seiliedig ar fandiau, mae'r cynlluniau marcio mewn dwy ran, sef y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

Mewn TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae'r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau y gellir eu dyrannu i gwestiwn yn amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a'r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Asesir ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle bo cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, dyfernir marc am bob amcan asesu ac wedyn caiff y marciau hynny eu hadio at ei gilydd er mwyn rhoi marc cyffredinol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hynny'n golygu, ar gyfer ymateb pob ymgeisydd, bod marciau'n cael eu cronni am arddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau â'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | (a) | *Mae Mr Williams yn credu yn y diffiniad negyddol o iechyd a llesiant, oherwydd ei fod yn teimlo'n iach ac yn byw heb glefyd nac afiechyd (illness). Mae Mr Williams wedi bod yn ysmygwr am y rhan fwyaf o'i fywyd fel oedolyn, a dydy e ddim yn meddwl bod hyn yn cael effaith ar ei iechyd.*<br><br>*Disgrifiwch sut byddai gwybodaeth am y diffiniadau cadarnhaol a chyfannol o iechyd a llesiant yn gallu helpu Mr Williams i wella ei iechyd a'i lesiant tymor hir.* | 8 | | | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y:<br>• Diffiniad cadarnhaol: cyflawni a chynnal ffitrwydd corfforol a sefydlogrwydd meddyliol. Gallai Mr Williams fod yn fwy rhagweithiol wrth ofalu am ei iechyd a'i lesiant yn y presennol a'r dyfodol.<br>• Diffiniad cyfannol: cyflwr o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn yn hytrach na dim ond diffyg clefyd neu wendid. Gallai Mr Williams ystyried pob un o'r ffactorau iechyd a llesiant PIES (corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol) a'r elfennau ysbrydol ar fywyd.<br><br>Gall y disgrifiad gynnwys y canlynol (a gall hefyd gynnwys enghreifftiau):<br>• Mae'r diffiniad cadarnhaol yn golygu bod Mr Williams yn gwneud yr ymdrech i wella ei iechyd a'i lesiant drwy fabwysiadu ffordd iach o fyw e.e. â'i ddeiet a'i ymarfer corff.<br>• Mae'r diffiniad cadarnhaol yn golygu bod Mr Williams yn defnyddio rhaglenni sgrinio a brechu sydd ar gael iddo ac yn ceisio gwella ei iechyd a'i lesiant, gan gymryd cyngor am faterion iechyd e.e. rhoi'r gorau i ysmygu.<br>• Mae'r diffiniad cyfannol yn golygu bod Mr Williams yn gofalu am ei iechyd meddwl felly, er enghraifft, mae'n cynnal cysylltiadau cymdeithasol rheolaidd ac yn ymwybodol o grwpiau cefnogi ar gyfer iselder a gorbryder, pe bai eu hangen.<br>• Mae'r diffiniad cyfannol yn ystyried yr unigolyn cyflawn a sut mae'n rhyngweithio â'r amgylchedd - ymagwedd at fywyd sy'n ystyried iechyd a llesiant meddwl yn ogystal â chorfforol.<br>• Mae'r diffiniad negyddol yn golygu bod Mr Williams yn aros tan fod angen triniaeth arno oherwydd afiechyd neu glefyd cyn rhoi'r awenau i weithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r ddau ddull arall yn rhoi mwy o berchnogaeth a rheolaeth iddo dros ei iechyd tymor hir, yn gorfforol ac yn feddyliol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Disgrifiad rhagorol sy'n:<br>• Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â'r diffiniadau cadarnhaol a chyfannol o iechyd a llesiant<br>• Darparu manylion clir sy'n dangos dealltwriaeth o sut gallai'r diffiniadau cadarnhaol a chyfannol o iechyd a llesiant helpu i wella iechyd a llesiant tymor hir Mr Williams |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n:<br>• Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda ynglŷn â'r diffiniadau cadarnhaol a chyfannol o iechyd a llesiant<br>• Darparu rhywfaint o fanylion sy'n dangos dealltwriaeth o sut gallai'r diffiniadau cadarnhaol a chyfannol o iechyd a llesiant helpu i wella iechyd a llesiant tymor hir Mr Williams |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n:<br>• Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ynglŷn ag o leiaf y diffiniadau cadarnhaol a/neu gyfannol o iechyd a llesiant<br>• Darparu manylion sylfaenol sy'n dangos dealltwriaeth o sut gallai'r diffiniadau cadarnhaol a/neu gyfannol o iechyd a llesiant helpu i wella iechyd a/neu lesiant tymor hir Mr Williams |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n:<br>• Dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag o leiaf un o'r diffiniadau cadarnhaol neu gyfannol o iechyd a llesiant<br>• Darparu ychydig bach o fanylion sy'n dangos dealltwriaeth gyfyngedig o sut gallai'r diffiniadau cadarnhaol neu gyfannol o iechyd a llesiant helpu i wella iechyd a/neu lesiant |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Mae Mrs Williams eisiau i'w gŵr stopio ysmygu.*<br><br>*Trafodwch sut mae'r dull cymdeithasol o hybu iechyd a llesiant yn canolbwyntio ar hybu iechyd gwrth-ysmygu (anti-smoking health promotion)* | | | 6 | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at:<br>• Diffiniad o'r dull cymdeithasol:<br>  ○ Ffocws ar ymyriad gan y llywodraeth o ran: deddfwriaeth, cyfyngiadau a pholisïau<br>  ○ Ffocysu ar y dylanwadau ehangach ar iechyd yn hytrach na chlefydau ac anafiadau, sy'n annog ymagwedd gymunedol at atal clefydau ac afiechydon – mae ysmygu'n cael ei ystyried yn wrthgymdeithasol ac yn ddrwg i'r amgylchedd<br>• Cyfeirio at enghreifftiau priodol:<br>  ○ Gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus (2007) – mae'n anghyfreithlon ysmygu mewn unrhyw dafarn, bwyty, clwb nos a'r rhan fwyaf o weithleoedd; llai o gyfle i ysmygu'n gymdeithasol dan do, dim hysbysebu (hysbysfyrddau ac ati) dim nawdd ac wedi'i guddio o'r golwg mewn siopau<br>• Y gyfraith: dydy pobl ddim am dorri'r gyfraith rhag ofn iddyn nhw gael cosb/dirwy<br>• gwahardd gwerthu sigaréts menthol ym mhob siop yn 2020<br>• Cost: cynyddu'r dreth ar sigaréts, gan wneud ysmygu yn arfer drud<br>• Rhybuddion iechyd ar becynnau sigaréts; testun clir mawr sy'n sefyll allan ac yn gorchuddio darnau mawr o'r defnydd pecynnu; gwahanol rybuddion iechyd megis effeithiau ysmygu goddefol ar blant<br>• Hybu iechyd cadarnhaol – dangos manteision rhoi'r gorau i ysmygu/peidio ag ysmygu<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA3 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos:<br>• dyfarniadau rhesymegol ynglŷn â sut mae'r dull cymdeithasol o hybu iechyd a llesiant yn gallu canolbwyntio ar hybu iechyd gwrth-ysmygu<br>• ymdrin yn drylwyr â'r dull cymdeithasol o hybu iechyd |
| **2** | **3-4 marc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos:<br>• dyfarniadau dilys ar y cyfan ynglŷn â sut mae'r dull cymdeithasol o hybu iechyd a llesiant yn gallu canolbwyntio ar hybu iechyd gwrth-ysmygu<br>• ymdrin yn syml â'r dull cymdeithasol o hybu iechyd |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:<br>• rhai dyfarniadau dilys ynglŷn â sut mae un dull cymdeithasol o hybu iechyd a/neu lesiant yn gallu canolbwyntio ar hybu iechyd gwrth-ysmygu<br>• prin mae'n cyfeirio, os o gwbl, at y dull cymdeithasol o hybu iechyd. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2. | | *'Dylai egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus fod yn sail i bopeth sy'n cael ei wneud yn GIG Cymru.'*<br>(Ffynhonnell: www.prudenthealthcare.wales)<br><br>*Amlinellwch **dair** o egwyddorion y strategaeth Gofal Iechyd Darbodus (Prudent Healthcare)* | 6<br>[2,2,2] | | | 6 |
| | | Rhowch hyd at **2 farc** am bob egwyddor berthnasol:<br><br>**Rhowch 1 marc** am nodi egwyddor berthnasol.<br>**Rhowch 2 farc** am amlinelliad o egwyddor berthnasol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir.<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br><br>**Egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus**:<br>• sicrhau iechyd a llesiant drwy weithio gyda'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol fel partneriaid cyfartal drwy gydgynhyrchu. Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a'u grymuso.<br>• blaenoriaethu'r rhai sydd â'r anghenion iechyd mwyaf a gofalu amdanynt yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau. System brysbennu i flaenoriaethu mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mewn ysbytai.<br>• gwneud yr hyn sydd ei angen yn unig – dim mwy, dim llai, sy'n lleihau gwastraff a niwed. Dylid rhoi'r gorau i ofal iechyd sydd ddim yn fuddiol iawn, os o gwbl.<br>• rhaid i wasanaethau ddarparu'r gofal gorau posibl gan ddefnyddio'r adnoddau ariannol cyfyngedig sydd ar gael i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau defnyddwyr gwasanaeth<br>• lleihau amrywiadau/anghydraddoldeb amhriodol gan ddefnyddio dulliau/ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn modd cyson a thryloyw. Ymwybyddiaeth o grwpiau dan anfantais/agored i niwed fydd efallai ddim yn gallu gofyn am gymorth mewn modd pendant. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | | *Esboniwch beth yw manteision **un** fenter **neu** ymgyrch gan Lywodraeth Cymru sy'n targedu iechyd, llesiant a gwydnwch plant a/neu bobl ifanc yng Nghymru.* | | 8 | | 8 |
| | | Gallai'r atebion gyfeirio at:<br><br>**Dechrau'n Deg**: ar gael mewn ardaloedd wedi'u targedu (dan anfantais) i gynorthwyo teuluoedd i sicrhau bod pob plentyn 0-3 mlwydd oed yn cael "dechrau'n deg" mewn bywyd e.e. gofal plant rhan-amser o safon uchel am ddim i blant 2-3 mlwydd oed, gwell gwasanaeth ymweliadau iechyd, darparu Rhaglenni Magu Plant, datblygiad iaith cynnar<br><br>**Rhaglen y 1000 o Ddiwrnodau Cyntaf**: ymyrryd yn gynnar drwy ganolbwyntio ar fabanod a phlant ifanc iawn gan fod plant iach yn fwy tebygol o dyfu'n oedolion iach<br><br>**Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru:** gellir cyflawni hyn drwy bolisi, cynllunio strategol, datblygu staff, cwricwlwm, ethos, amgylchedd ffisegol a chysylltiadau cymunedol yr ysgol. Mae'r testunau'n cynnwys e.e. bwyd a ffitrwydd, iechyd a llesiant meddyliol ac emosiynol, datblygiad a pherthnasoedd personol, defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, amgylchedd, diogelwch a hylendid.<br><br>**Her Iechyd Cymru:** Ffocws ar bryderon iechyd a ffordd o fyw e.e. ysmygu, alcohol, cyffuriau, bwyd a ffitrwydd ac iechyd meddwl. Caiff cyngor ei gyfeirio at sefydliadau yn ogystal ag unigolion, sy'n annog cyflogwyr i ofalu am iechyd eu staff a'u cwsmeriaid.<br><br>**Cynllun Gwên:** i wella iechyd ceg plant yng Nghymru, rhaglen ataliol sy'n dechrau o adeg genedigaeth e.e. annog mynd at y deintydd cyn pen-blwydd cyntaf y plentyn.<br><br>**Meddwl yn Gadarnhaol: (Iechyd a llesiant emosiynol mewn ysgolion a lleoliadau Blynyddoedd Cynnar):** crynodeb o wybodaeth allweddol gan gynnwys enghreifftiau o'r ymarfer presennol yng Nghymru, adnoddau cyfeirio a ffynonellau cymorth ar gyfer arfer gorau.<br><br>**Strategaeth Tlodi Plant Cymru:** amlinellu gweledigaeth a nodau o ran hawliau plant yn y ganolfan. Mae trechu tlodi hefyd yn lleihau anghydraddoldebau. Mae'n targedu grwpiau sy'n wynebu risg. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **GIG Cymru:** cyngor ac arweiniad penodol am iechyd a llesiant e.e. gwrth-ysmygu, gordewdra, alcohol, cyffuriau.<br><br>**Ymgyrchoedd cenedlaethol penodol yng Nghymru a'r DU ar gyfer materion iechyd penodol e.e.**<br>Pwysau Iach: Cymru Iach, Change4Life<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Esboniad rhagorol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am fenter/ymgyrch genedlaethol briodol<br>• dealltwriaeth hyderus o fanteision y fenter/ymgyrch i iechyd, llesiant a gwydnwch plant a/neu bobl ifanc yng Nghymru |
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ynglŷn â menter/ymgyrch genedlaethol briodol<br>• dealltwriaeth gadarn o fanteision y fenter/ymgyrch i iechyd, llesiant a gwydnwch plant a/neu bobl ifanc yng Nghymru |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth glir ar y cyfan ynglŷn â menter/ymgyrch genedlaethol briodol<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o fanteision y fenter/ymgyrch i iechyd, llesiant a/neu wydnwch plant a/neu bobl ifanc yng Nghymru |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â menter/ymgyrch genedlaethol briodol<br>• rhyw ddealltwriaeth o fanteision y fenter/ymgyrch i iechyd/llesiant/gwydnwch plant a/neu bobl ifanc yng Nghymru |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | | *Mae Mind Cymru a Mental Health Matters Wales yn enghreifftiau o sefydliadau elusennol (charitable organisations) sy'n cefnogi iechyd meddwl yng Nghymru.*<br><br>*Dadansoddwch y manteision a'r cyfyngiadau (benefits and limitations) i sefydliadau elusennol sy'n gweithio yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.* | | | 8 | 8 |
| | | Gall ymgeiswyr gyfeirio at sefydliad elusennol sydd wedi'i enwi, gan gynnwys Mind Cymru a Mental Health Matters Wales, ond gallant roi atebion mwy cyffredinol.<br><br>Gall atebion gyfeirio at sut mae'r sefydliadau elusennol yn derbyn sylw ac yn diwallu anghenion unigolion:<br><br>**Manteision:**<br>• ymwybyddiaeth gyhoeddus bod sefydliadau elusennol yn gallu helpu unigolion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd<br>• codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o wahanol faterion<br>• dod â chymunedau at ei gilydd<br>• yn rhad ac am ddim i'w defnyddio, cynnig 'man diogel'<br>• ariannu gwaith ymchwil<br>• gwneud i unigolion deimlo eu bod nhw wedi'u grymuso e.e. drwy godi arian i elusennau<br>• cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, sy'n golygu eu bod nhw'n cynrychioli anghenion unigolion yn dda<br>• efallai y bydd y sefydliadau'n cefnogi gwaith sefydliadau statudol megis y GIG a gwasanaethau cymdeithasol<br>• y cyhoedd yn eu cydnabod nhw ac yn ymddiried ynddyn nhw gan eu bod nhw i'w gweld yn gwneud gwaith da i'r gymdeithas<br>• bydd yn denu cyllid a rhoddion gan fod pobl yn ei ystyried yn achos da<br>• rhyddhad rhag trethi – ddim yn talu treth incwm/corfforaeth, treth enillion cyfalaf na threth stamp. Ni chodir treth etifeddiant ar roddion i elusennau<br>• llawer o wirfoddolwyr a bwrdd di-dâl, felly mae costau cyflogau'n isel<br>• ardrethi busnes isel ar adeiladau ac weithiau bydd yr awdurdod lleol yn rhoi rhyddhad 100% rhag ardrethi. Mae siopau elusen yn aml ar Strydoedd Mawr ac yn hawdd i'r cyhoedd eu gweld<br>• gall elusennau godi arian gan y cyhoedd, ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau a llywodraeth leol yn haws na chyrff sydd ddim yn elusennol<br>• gellir hawlio arian RHODD CYMORTH yn ôl ar lawer o roddion gan unigolion preifat, sy'n annog mwy o bobl i roi oherwydd y manteision treth | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • mae elusennau'n rhoi sicrwydd cyhoeddus eu bod nhw'n cael eu rheoleiddio gan Gomisiwn Elusennau Cymru<br>• darparu cronfeydd cymorth yn ystod argyfyngau e.e. y pandemig COVID-19 (coronafeirws) gan Lywodraeth Cymru<br><br>**Cyfyngiadau:**<br>• efallai na fydd cyngor a roddir yn bersonol, e.e. cynnig cyngor cyffredinol ar wefan<br>• dim gwybodaeth flaenorol am yr unigolyn sy'n defnyddio'r elusen<br>• efallai na fydd gwybodaeth a roddir yn gywir, yn briodol nac yn gyfredol<br>• oherwydd mai elusen ydyn nhw, efallai na fydd ganddyn nhw adnoddau<br>• effeithiau e.e., y pandemig COVID-19 (coronafeirws) rhoddion yn stopio a siopau elusen yn cau a'u gweithgareddau codi arian felly collodd llawer o elusennau symiau mawr o incwm posibl<br>• rhaid i'r elusen fod â dibenion elusennol yn unig felly byddai'n rhaid rhoi'r gorau i weithgareddau sydd ddim yn elusennol<br>• rheolau llym sy'n berthnasol i fasnach gan elusennau (canllawiau'r Comisiwn Elusennau)<br>• os yw wedi'i ymgorffori fel cwmni mae'n rhaid ymdrin â'r Rheoleiddwyr – y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau<br>• dydy ymddiriedolwyr ddim yn cael derbyn budd-daliadau gan yr elusen oni bai bod dogfen lywodraethol yr elusen yn eu cymeradwyo nhw. Ni cheir talu mwy na 50% o'r Ymddiriedolwyr, rhaid i'r gweddill fod yn wirfoddolwyr<br>• mae angen i ymddiriedolwyr osgoi sefyllfaoedd lle bydd buddiannau elusennol a phersonol yn gwrthdaro<br>• cyfyngiadau ar faint o weithgareddau gwleidyddol neu ymgyrchu y caiff elusen eu gwneud<br>• mae cyfraith elusennau'n gosod gofynion penodol ar gofnodion ariannol gan ddibynnu ar faint yr elusen<br>• mae cynnydd yn nifer yr elusennau lleol a chenedlaethol yn golygu nad yw rhai sefydliadau elusennol yn denu digon o gyllid i barhau e.e. dim ond ambell i swyddfa sydd gan Mind yng Nghymru.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA3 |
| --- | --- |
| **4** | **7-8 marc**<br>Dadansoddiad rhagorol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â'r manteision a'r cyfyngiadau sy'n wynebu sefydliadau elusennol priodol<br>• ymateb hyderus a chytbwys sy'n cynnwys dyfarniadau rhesymegol, gan sôn am fanteision a chyfyngiadau |
| **3** | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r manteision a'r cyfyngiadau sy'n wynebu sefydliadau elusennol priodol<br>• dealltwriaeth gadarn gan gynnwys dyfarniadau rhesymegol â mwy o duedd tuag at naill ai fanteision neu gyfyngiadau |
| **2** | **3-4 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth am y manteision a/neu y cyfyngiadau sy'n wynebu sefydliadau elusennol priodol<br>• ystyriaeth syml gan gynnwys rhai dyfarniadau sy'n dangos tystiolaeth gyfyngedig |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r manteision na'r cyfyngiadau sy'n wynebu sefydliad elusennol<br>• rhyw ddealltwriaeth o fanteision neu gyfyngiadau heb lawer o dystiolaeth o ddyfarniadau |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. | (a) | *Disgrifiwch sut mae anghydraddoldebau (inequalities) mewn iechyd a llesiant yn gallu yn unig bodoli oherwydd rhyw unigolyn (an individual’s sex).* | 6 | | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at:<br>• mae benywod yn fwy tebygol o ymweld â'u meddyg teulu yn rheolaidd a mynychu apwyntiadau sgrinio, felly bydd afiechyd a chlefyd yn cael diagnosis a thriniaeth yn gynharach<br>• seicoleg gwrywol iechyd: llai tebygol o ofyn am help ar gyfer afiechyd meddyliol neu gorfforol<br>• mae gwrywod yn wynebu mwy o risg o anafiadau neu ddamweiniau yn y gwaith<br>• anghydraddoldeb tâl yn effeithio ar incwm i gynnal iechyd a llesiant<br>• mae gwrywod yn tueddu i fwyta deietau llai iach felly maen nhw'n wynebu mwy o risg o glefyd y galon a strociau. mae cyfraddau marwolaethau o glefyd coronaidd y galon 5x yn uwch ymysg gwrywod<br>• mae gan wrywod ddisgwyliad oes byrrach na benywod (cyfartaledd o 79.2 mlynedd ar gyfer gwrywod ac 82.9 mlynedd ar gyfer benywod)<br>• mae gwrywod yn mynd yn sâl yn iau na benywod ac yn dioddef mwy o afiechydon cronig<br>• problem iechyd wrywol gyffredin o anewrysm aortig abdomenol yn 60+ oed<br>• amrywiadau mewn canserau sy'n gysylltiedig â rhyw e.e. dim ond benywod sy'n cael canser yr ofari a dim ond gwrywod sy'n cael canser y prostad a'r ceilliau<br>• mae mwy o fenywod yn datblygu canser y fron na gwrywod<br>• mae gwrywod yn fwy tebygol o gael canser (14% yn fwy) a marw ohono (37%): mwy o risg o ddod i gysylltiad â charsinogenau, diffyg ymwybyddiaeth o'r risgiau ac arwyddion neu symptomau'n datblygu'n hwyr<br>• mae gwrywod yn fwy tebygol o farw o COVID-19 na benywod<br>• gall gwahaniaethu mewn cysylltiad â beichiogrwydd a'r menopos effeithio ar fenywod<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn ag amrywiadau iechyd a llesiant gwrywol/benywol sy'n deillio o eneteg neu ymddygiad<br>• Dealltwriaeth hyderus o anghydraddoldebau iechyd a llesiant sy'n deillio o ryw'r unigolyn |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ynglŷn ag amrywiadau iechyd a llesiant gwrywol/benywol sy'n deillio o eneteg neu ymddygiad<br>• Rhyw ddealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd a llesiant sy'n deillio o ryw'r unigolyn |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:<br>• Rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag amrywiadau iechyd a llesiant gwrywol/benywol sy'n deillio o eneteg neu ymddygiad<br>• dim llawer o ddealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd a llesiant sy'n deillio o ryw'r unigolyn |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. | (b) | *Crynhowch ddau benderfynydd (determinants) economaidd-gymdeithasol arall fyddai'n gallu effeithio ar unigolion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig (deprived areas).* | 6<br>[3,3] | | | 6 |
| | | Rhowch hyd at **3 marc** am bob penderfynydd economaidd-gymdeithasol perthnasol:<br><br>**Rhowch 1 marc** am nodi penderfynyn perthnasol<br>**Rhowch 2 farc** am sylw am benderfynyn perthnasol sy'n dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth<br>**Rhowch 3 marc** am grynodeb o benderfynyn perthnasol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br><br>• nodweddion personol: oedran, grŵp ethnig, a ffactorau etifeddol<br>• oedran – pobl hŷn sydd wedi ymddeol; myfyrwyr<br>• ethnigrwydd – grwpiau lleiafrifoedd ethnig;<br>• teuluoedd estynedig ac aelwydydd;<br>• poblogaethau ffoaduriaid;<br>• gweithwyr mudol<br>• ffactorau etifeddol<br>• ffactorau ffordd o fyw: yn cynnwys ymddygiadau fel deiet, ysmygu, defnyddio alcohol, camddefnyddio sylweddau ac ymarfer corff<br>• gwydnwch personol a theuluol: yn cynnwys ymdrin ag adfyd, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod<br>• rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol: yn cynnwys cylchoedd teuluol a chymdeithasol ehangach, cyswllt posibl â gangiau<br>• amodau byw a gweithio: yn cynnwys mynediad a chyfleoedd mewn perthynas â swyddi, tai, addysg a gwasanaethau gofal<br>• amodau economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol<br>  o economaidd-gymdeithasol: yn cynnwys ffactorau fel tlodi, incwm gwario, y gwaith sydd ar gael, dibyniaeth uchel ar fudd-daliadau gwladol/banciau bwyd/cymorth elusennol<br>  o diwylliannol: iaith (dwyieithog, amlieithog),<br>  o amodau amgylcheddol: amodau byw – mwy o rentu; tai cymdeithasol; cartrefi/fflatiau bach neu orlawn, cyfraddau troseddu uwch a throseddu ieuenctid<br>  o gwerthoedd, credoau ac agweddau tuag at iechyd a llesiant: yn cynnwys credoau diwylliannol a chrefyddol; mwy o aelwydydd un rhiant â mynediad cyfyngedig at wasanaethau addysg, iechyd a gofal<br>• gwahaniaethu: gan gynnwys uniongyrchol, anuniongyrchol, drwy gysylltiad<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | (a) | *Mae Gareth yn 11 oed.* Ers cael damwain ffordd, mae ganddo symudedd cyfyngedig (*limited mobility*).<br>*Mae'r model cymdeithasol ar gyfer iechyd, anabledd a llesiant yn awgrymu bod rhwystrau (barriers) mewn cymdeithas yn gallu eithrio (exclude) rhai unigolion.*<br>Esboniwch sut byddai'r rhwystrau hyn yn gallu eithrio Gareth, fydd bob amser angen defnyddio cadair olwyn. | | 8 | | 8 |
| | | Gall atebion gynnwys y canlynol:<br><br>Mae'r model cymdeithasol yn nodi mai'r rhwystrau mewn cymdeithas sy'n eithrio Gareth ac yn gwneud bywyd yn anoddach iddo, yn hytrach nag mai ei 'anabledd' yw'r broblem.<br><br>**Gallai rhwystrau i Gareth gynnwys:**<br><br>• ffisegol e.e. drysau'n rhy gul i'w gadair olwyn; diffyg rampiau neu lifftiau<br>• diffyg adnoddau technoleg gynorthwyol ar gael; ffactorau ariannu a chost yn dylanwadu ar ddarpariaeth<br>• diffyg trafnidiaeth addas<br>• yn gymdeithasol mae wedi'i eithrio o wasanaethau neu weithgareddau penodol gan nad oes cymorth anabledd wedi'i ddarparu; llai o wasanaethau cymorth yn yr ysgol, gallai gael ei eithrio o deithiau ysgol a gweithgareddau iard chwarae<br>• agweddau a chanfyddiadau negyddol e.e. tybio na fydd Gareth yn gallu gwneud gweithgareddau penodol oherwydd ei anabledd; tybio fod ei botensial academaidd yn is oherwydd ei anabledd corfforol e.e. cymryd rhan mewn chwaraeon/ymarfer corff<br>• gallai rhwystrau systemig ac allgáu cymdeithasol gael effaith anffafriol ar ragolygon gyrfa a swydd Gareth<br>• gallai teulu Gareth ei ddiogelu'n ormodol oherwydd ei anabledd gan arwain at ddibyniaeth a chyfyngu ar ei annibyniaeth<br>• mae'n rhaid i deulu Gareth wneud penderfyniadau ar ei ran oherwydd ei oed; mae ganddo lai o reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd iddo, felly gallai gael ei ddadrymuso<br>• mae ffactorau sefydliadol, cymdeithasol, amgylcheddol, gwleidyddol ac economaidd yn dylanwadu ar ddarparu amgylcheddau ffisegol glân, diogel o safon uchel sydd eu hangen i hybu ei iechyd a'i lesiant<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Esboniad rhagorol sy'n dangos:<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn ag ystod o rwystrau mae'r model cymdeithasol yn eu canfod<br>• Dealltwriaeth hyderus o sut gall y rhwystrau hyn eithrio Gareth |
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ynglŷn â'r rhwystrau mae'r model cymdeithasol yn eu canfod<br>• Dealltwriaeth gadarn o sut gall y rhwystrau hyn eithrio Gareth |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth glir ar y cyfan ynglŷn â rhai rhwystrau mae'r model cymdeithasol yn eu canfod<br>• Dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut gallai rhai rhwystrau eithrio Gareth |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:<br>• Rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag o leiaf un rhwystr mae'r model cymdeithasol yn ei ganfod<br>• Dealltwriaeth gyfyngedig, os o gwbl, o sut gall o leiaf un rhwystr eithrio Gareth |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | (b) | *Gwerthuswch sut byddai iechyd corfforol yn gallu effeithio ar lesiant unigolyn.* | | | 10 | 10 |
| | | Dylai atebion gyfeirio at effeithiau **cadarnhaol** a **hefyd negyddol** posibl iechyd corfforol ar lesiant unigolyn.<br><br>Gallai atebion gynnwys, a bod wedi'u cyflwyno fel a ganlyn:<br><br>**Effeithiau deallusol:**<br>**Cadarnhaol/Negyddol**<br>• y cysylltiad rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl: e.e. mae iechyd corfforol gwael yn gallu arwain at fwy o risg o ddatblygu problemau iechyd meddwl/mae iechyd corfforol da yn hybu iechyd meddwl da ac yn gwella perfformiad deallusol<br><br>**Effeithiau cymdeithasol:**<br>**Cadarnhaol/Negyddol**<br>• gallai unigolion gymdeithasu'n llai aml a rhyngweithio â llai o bobl, encilio os oes ganddyn nhw iechyd corfforol gwael<br>• gallai unigolion golli ymreolaeth<br>• gallai allgáu cymdeithasol ac unigedd ddigwydd o ganlyniad i iechyd corfforol gwael<br>• mae iechyd corfforol da'n golygu bod unigolion yn symud o gwmpas ac yn cymdeithasu mwy, ac yn cyfathrebu â phobl eraill<br><br>**Effeithiau emosiynol:**<br>**Cadarnhaol/Negyddol**<br>• effeithiau emosiynol negyddol oherwydd allgáu cymdeithasol neu unigedd<br>• mae iechyd corfforol da'n gallu arwain at gymryd rhan mewn chwaraeon sy'n hybu mwy o hwyliau cadarnhaol, llai tebygol o ddioddef gorbryder ac iselder; gostwng tensiwn a lefelau straen<br>• mae mwy o weithgareddau cymdeithasol gyda phobl eraill yn gwella llesiant emosiynol, yn cynyddu hunan-barch ac yn lleihau'r risg o salwch<br><br>**Moesol ac ysbrydol:**<br>**Cadarnhaol/Negyddol**<br>• gallai iechyd corfforol da olygu bod unigolyn yn cael cyfle i ymuno â grŵp cymunedol/crefyddol i gefnogi credoau moesol ac ysbrydol<br>• rhoi mwy o gyfle i ryngweithio a chymdeithasu â phobl eraill, sy'n gwella iechyd meddwl a llesiant<br>• mae crefydd, myfyrdod a gweddïo'n gallu cyfrannu at well iechyd a llesiant emosiynol, ymddygiadau llai ymosodol a mwy o fodlonrwydd | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • mae gwella iechyd ysbrydol yn gallu helpu unigolion i deimlo'n well amdanyn nhw eu hunain, gwella hunan-barch a hunangysyniad<br>• yn llai agored i niwed gan salwch corfforol fel iselder, gorbwysedd, llai o straen a gallu ymdopi'n well â straen<br><br>Gallai ymgeiswyr gynnig amrywiaeth o enghreifftiau, ond peidiwch â gwobrwyo sylwadau i'r gwrthwyneb ddwywaith e.e. mae iechyd corfforol da'n hybu iechyd meddwl da **NEU** mae iechyd corfforol gwael yn gallu arwain at iechyd meddwl gwael.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **9-10 marc**<br>Gwerthusiad rhagorol sy'n dangos:<br>• Barn graff a gwybodus am sut gallai iechyd corfforol effeithio ar lesiant unigolyn; yn gadarnhaol a hefyd yn negyddol<br>• Ymdrin yn hyderus ac yn fanwl â sut gallai iechyd corfforol effeithio ar lesiant |
| **3** | **6-8 marc**<br>Gwerthusiad da sy'n dangos:<br>• Barn resymegol am sut gallai iechyd corfforol effeithio ar lesiant unigolyn; yn gadarnhaol a hefyd yn negyddol<br>• Ymdrin yn drwyadl â sut gallai iechyd corfforol effeithio ar lesiant |
| **2** | **3-5 marc**<br>Gwerthusiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• Barnau dilys ar y cyfan am sut gallai iechyd corfforol effeithio ar lesiant unigolyn; yn gadarnhaol a/neu yn negyddol<br>• Ymdrin yn syml â sut gallai iechyd corfforol effeithio ar lesiant |
| **1** | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• Prin ddim tystiolaeth o farn am sut gallai iechyd corfforol effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn<br>• Prin ddim sylw i sut gallai iechyd corfforol effeithio ar lesiant |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | (c) | *Mae Gareth yn wynebu risg o fynd yn ordew (obese).*<br><br>*Disgrifiwch beth yw risgiau gordewdra ymhlith plant Gordewdra ymhlith Plant (childhood obesity) ac ystyriwch sut byddai ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn gallu helpu plant i gynnal pwysau corff iach (healthy body weight).* | 6 | | 8 | 14 |
| | | Gall atebion gynnwys y canlynol:<br><br>**Risgiau gordewdra ymhlith plant:**<br>Mae gordewdra ymhlith plant yn gysylltiedig â siawns uwch o amryw o risgiau iechyd, megis:<br>• pwysedd gwaed uchel, sy'n gallu arwain at glefyd cardiofasgwlar a strôc<br>• diabetes, sy'n gallu niweidio'r llygaid, y nerfau a'r arennau<br>• asthma, sy'n gallu gwneud anadlu'n anodd ac achosi llid ar yr ysgyfaint<br>• anhwylderau cysgu, sy'n gallu effeithio ar hwyliau, canolbwyntio a thwf<br>• problemau â'r cymalau, gan gynnwys traul (osteoarthritis) a phelen cymal y glun yn gwahanu oddi wrth ben uchaf asgwrn y forddwyd. Mae plant gordew hefyd yn fwy tebygol o ddatblygu coesau bachog ac yn fwy tebygol o ddioddef toresgyrn.<br>• mae gordewdra'n gysylltiedig ag iechyd seicolegol ac emosiynol gwael, ac mae llawer o blant yn cael eu bwlio oherwydd eu pwysau<br>• mae plant sy'n byw â gordewdra'n fwy tebygol o dyfu'n oedolion sy'n byw â gordewdra gan wynebu risg uwch o glefydedd, anabledd a marw'n gynnar fel oedolion<br>• mynd drwy'r glasoed yn gynnar<br>• problemau anadlu, gan gynnwys asthma yn mynd yn waeth, anawsterau ag anadlu plentyn sy'n cysgu (apnoea cwsg rhwystrol) a theimlo'n fyr o wynt yn hawdd wrth wneud ymarfer corff<br>• datblygu diffyg haearn a diffyg fitamin D<br>• mae bod dros bwysau neu'n ordew fel plentyn neu yn yr arddegau hefyd yn gallu cael effeithiau seicolegol ar rai<br>• mae'n gallu arwain at hunan-barch isel a diffyg hyder. Gallai plentyn gael ei fwlio oherwydd ei bwysau. Gallai encilio ac osgoi cyswllt cymdeithasol. Gallai arwain at hwyliau isel ac, mewn achosion difrifol, iselder<br>• yn feddyliol, gall gordewdra arwain at hunangysyniad gwaeth, delwedd wael o'r hunan, diffyg hunan-barch a hyder a gall effeithio ar berthnasoedd â theulu a ffrindiau gan gynhyrchu gorbryder ac iselder | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Arbenigwyr addysg iechyd a hybu iechyd**: darparu posteri a thaflenni, cymorth ar wefan<br>**Nyrs yr Ysgol**: pwyso a chyfrifo ei BMI, cynnig cyngor ac atgyfeirio at ddeietegydd / maethegydd<br>**Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd**: apwyntiad â deietegydd a chynllunio bwydlenni<br>**Paediatregydd**: asesiad a thriniaeth wyneb yn wyneb e.e. cynllun deiet ac ymarfer corff<br>**Seicotherapydd plant**: cyngor wyneb yn wyneb ynghylch iechyd meddwl ac iechyd corfforol<br>**Seicotherapydd**: therapi teulu, therapi ymddygiadol gwybyddol i newid patrymau meddwl/ymddwyn negyddol<br><br>**Cwnselydd Ysgol**: cynnig cyngor cyfannol<br>**Gweithiwr cymorth teuluol**: gweithio gyda'r teulu i gyd ar iechyd a llesiant, gan ganfod adnoddau/cymorth ychwanegol sydd eu hangen<br>**Gweithiwr gofal iechyd cymunedol**: gweithio gyda'r teulu i gyd<br>**Gweithiwr gofal cymdeithasol**: cefnogi plentyn agored i niwed ag anableddau a'i deulu i gael y grantiau a'r budd-daliadau mae ganddynt hawl i'w cael, fel bod mwy o arian ar gael i brynu bwydydd iachach<br>**Athro/cynorthwyydd ystafell ddosbarth/cynorthwyydd cymorth dysgu:** cynorthwyo â'r cwricwlwm iechyd yn yr ysgol; ffocws ar wella a chynnig gweithgarwch corfforol rheolaidd bob wythnos.<br>**Gweithiwr plant/ieuenctid**: rhaglenni gweithgarwch corfforol a chymdeithasol<br><br>Sut gallai ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant helpu plant i gynnal pwysau corff iach:<br>• Grŵp cymunedol rheoli pwysau<br>• Cefnogaeth gan y gymuned leol: mae rheoli gordewdra'n fater o wella iechyd cyffredinol, nid dim ond gordewdra<br>• Rôl y cyfryngau e.e. posteri, taflenni, cefnogaeth wyneb yn wyneb, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol (twitter, Facebook, Instagram), ffôn, testun, digwyddiadau hyrwyddo<br>• Gwasanaethau ymyrryd cynnar lleol<br>• Bwyd yr ysgol /bwydlenni bwyta'n iach/rhaglen ysgol iach<br>• Gall y gefnogaeth ganolbwyntio ar yr unigolyn, ar addysg neu ar faterion meddygol<br>• Mae'n rhaid i'r plentyn fod ag eisiau colli pwysau a chymryd rhyw berchnogaeth ar y broses a grymuso<br>• Bydd angen cynnwys y teulu, felly mae cynlluniau prydau bwyd a rhaglenni ymarfer corff yn bosibl<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **4** | Does dim marciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn. Dyfernir 6 marc fel yn achos Band 3. | **7-8 marc**<br>Ymateb rhagorol sy'n dangos:<br>• ystyriaeth graff a gwybodus o sut gall amrywiaeth o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant helpu plant i gynnal pwysau corff iach<br>• ymdrin yn hyderus a manwl â rôl ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o amrywiaeth eang o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn ag amrywiaeth o risgiau gordewdra ymhlith plant | **5-6 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos:<br>• ystyriaeth resymegol o sut gall ymarferwyr iechyd/gofal cymdeithasol a/neu ymarferwyr gofal plant helpu plant i gynnal pwysau corff iach<br>• ymdrin yn dda â rôl ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan ynglŷn â rhai o risgiau gordewdra ymhlith plant | **3-4 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:<br>• ystyriaeth ddilys ar y cyfan o sut gall ymarferwyr iechyd/gofal cymdeithasol a/neu ymarferwyr gofal plant helpu plant i gynnal pwysau corff iach<br>• rhyw ymwybyddiaeth o rôl ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â risg(iau) gordewdra ymhlith plant | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:<br>• Dim llawer o dystiolaeth o ystyried sut gall ymarferwyr iechyd/gofal cymdeithasol a/neu ymarferwyr gofal plant helpu plant i gynnal pwysau corff iach<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig, os o gwbl, o rôl ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant<br><br>Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Cynnwys y fanyleb (prif ffocws) | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adran | | | Rhan | Cyfanswm y Marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | 2.1.1 | 2.1.2 | 2.1.3 | | | | | |
| 1. | (a) | 8 | | | (a) | **8** | 8 | 0 | 0 |
| | (b) | | | 6 | (ch) | **6** | 0 | 0 | 6 |
| 2. | | | 6 | | (c) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| 3. | | | | 8 | (d) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| 4. | | | | 8 | (dd) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| 5. | (a) | | 6 | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| 6. | (a) | 8 | | | (b) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| | (b) | 10 | | | (c) | **10** | 0 | 0 | 10 |
| | (c) | | 6 | | (b) | **14** | 6 | 0 | 0 |
| | | | | 8 | (dd) | | 0 | 0 | 8 |
| **Cyfanswm marciau** | | **26** | **26** | **30** | | **80** | **32** | **16** | **32** |



© WJEC CBAC Ltd.